**Y PWYLLGOR DEDDFAU** LEG 05-99 (min)

**COFNODION**

**Dyddiad:** 28 Medi 1999

**Amser:** 10.30am i 12.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | Michael German, Cadeirydd | (Democrat Rhyddfrydol: Dwyrain De Cymru) |
| | Nicholas Bourne | (Ceidwadwr: Canolbarth a Gorllewin Cymru) |
| | Jocelyn Davies | (Plaid Cymru: Dwyrain De Cymru) |
| | David Rhys Lloyd | (Plaid Cymru: Gorllewin De Cymru) |
| | Lynne Neagle | (Llafur: Tor-faen) |
| | Owen John Thomas | (Plaid Cymru: Gorllewin De Cymru) |
| | John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| | Jane Phillips | Clerc y Pwyllgor |
| | Andrew George | Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau |
| **Ymddiheuriadau:** | Carwyn Jones | (Llafur: Pen-y-bont ar Ogwr) |

**Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**

1.1 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau o'i fwriad i ddosbarthu copi o'i lythyr at y Prif

Ysgrifennydd i roi gwybod iddo am argymhellion y Pwyllgor ynghylch cyflwyno deddfwriaeth y Cynulliad. Yr oedd eisoes wedi dosbarthu copi o’r llythyr a anfonodd at y Dirprwy Lywydd ynghylch trafod adroddiadau’r Pwyllgor mewn Cyfarfod Llawn. Yr oedd y Dirprwy Lywydd wedi cadarnhau ei bod yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer ystyried adroddiadau’r Pwyllgor.

1.2 Yn ei gyfarfod diwethaf, yr oedd y Pwyllgor wedi mynegi’r farn bod geiriad Rheol Sefydlog 22.24 (sy’n darparu ar gyfer llofnodi Gorchmynion drafft) yn amwys. Yr oedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi pasio sylwadau’r Pwyllgor i Swyddfa’r Llywydd fel y gellid eu cynnwys mewn adroddiad ar y Rheolau Sefydlog a fyddai’n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Busnes fis nesaf.

**Eitem 2 Cofnodion y Cyfarfodydd Blaenorol**

**LEG 04-99(min)**

2.1 Cytunodd yr aelodau y byddai’n well ganddynt ystyried cofnodion y cyfarfodydd blaenorol, ynghyd ag unrhyw faterion yn deillio ohonynt, cyn dechrau ar y prif faterion yn y dyfodol.

2.2 Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir, yn amodol ar gynnwys cyfeiriad yn dweud bod y memorandwm esboniadol a ddarparwyd er gwybodaeth wrth ystyried LC1 (Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol (Cychwyn) (Cymru) 1999) yn gynamserol wrth honni bod y gorchymyn drafft yn gydnaws â chynllun datblygu cynaliadwy y Cynulliad.

2.3 Gofynnodd Jocelyn Davies a oedd unrhyw gynnydd wedi digwydd o ran hysbysu’r Aelodau ynghylch cylchlythyron, cyfarwyddyd a chanllawiau a gyhoeddir gan y Cynulliad. Yr oedd yn poeni bod cylchlythyron yn cael eu cyhoeddi heb unrhyw rybudd i Aelodau a heb unrhyw archwiliad ohonynt gan aelodau’r Pwyllgor Deddfau. Esboniodd Mr Turnbull y gallai Ysgrifennydd Cynulliad o dan Ran 5 o Reol Sefydlog 22 benderfynu yn y lle cyntaf a ddylid ystyried darn penodol o fusnes yn Ddeddfwriaeth Cynulliad; ac, os felly, a ddylai’r Pwyllgor Deddfau ei ystyried. Mewn trafodaeth yr oedd yr Aelodau o’r farn y dylai holl Aelodau’r Cynulliad gael eu hysbysu am y penderfyniadau hyn er mwyn iddynt fedru mynegi barn ynghylch a ddylid tynnu’r Pwyllgor Deddfau i mewn i’r mater. Yr oeddent yn cytuno y dylai’r Cadeirydd ysgrifennu at y Prif Ysgrifennydd i ofyn iddo drefnu bod gwybodaeth ar gael i bob aelod o’r Cynulliad, a hynny mewn modd hygyrch, am yr holl ddogfennau sydd i’w rhyddhau gan Ysgrifenyddion y Cynulliad.

2.4 Dywedodd Mr Turnbull, mewn ymateb i gwestiwn, ei fod wedi penodi siaradwr Cymraeg sy’n arbenigwr yn y Gyfraith i gynghori’r Pwyllgor ar derminoleg gyfreithiol Gymraeg.

**Eitem 3 Gorchmynion Drafft y Cynulliad i’w Hystyried gan y Pwyllgor Deddfau**

**LC3: Rheoliadau Addysg (Safonau Iechyd a Chymwysterau Iechyd) Cymru 1999**

3.1 Yn dilyn trafodaeth hir, cytunodd yr Aelodau i argymell i'r Cwnsler Cyffredinol bod iaith sy'n niwtral o ran gender yn cael ei defnyddio yn holl ddeddfwriaeth y Cynulliad o hyn ymlaen.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i adrodd i'r Cynulliad nad oes angen iddo roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw un o'r seiliau a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Penderfynwyd hefyd y dylid ategu Adroddiadau ffurfiol y Pwyllgor i'r Cynulliad ag unrhyw sylwadau yr oedd gan y pwyllgor ynghylch y Gorchmynion drafft ac unrhyw Is-ddeddfwriaeth arall yr oedd wedi ei hystyried.

3.3 Amgaeir yr Adroddiad a wnaed gan y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn ar ffurf LC3 (Adroddiad).

**LC4: Rheoliadau Addysg (Gwerthuso Athrawon Ysgol) (Cymru) 1999**

3.4 Ystyriodd y Pwyllgor sylwadau'r Ymgynghorydd Cyfreithiol ynghylch anghysonderau rhwng y testunau Saesneg a Chymraeg yn Rheoliad 2(1) a drafftio diffygiol yn Rheoliad 9(2)(3). Cytunwyd nad oedd y drafftio yn ddiffygiol i'r graddau a allai arwain at y posibilrwydd o wneud yr offeryn yn annilys. Er hynny, gan fod y drafftio mor anghyson ac anodd, yr oedd y Pwyllgor o'r farn y dylid cyflwyno'r Gorchymyn i sylw arbennig y Cynulliad.

3.5 Penderfynwyd galw'r weithdrefn yn Rheol Sefydlog 11.4 i rym. Yn ôl y weithdrefn hon cyn adrodd i'r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i unrhyw Orchymyn Cynulliad neu is-ddeddfwriaeth arfaethedig arall, bydd y Cadeirydd yn hysbysu'r Ysgrifennydd Cynulliad a'i gosododd gerbron y Cynulliad bod y Pwyllgor yn bwriadu gwneud adroddiad o'r fath, a bydd yn rhoi cyfle i'r Ysgrifennydd Cynulliad roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, ac ateb unrhyw gwestiynau y mae wedi'u codi, naill ai ar lafar neu yn ysgrifenedig. Byddai'r Pwyllgor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen yng ngoleuni ymateb yr Ysgrifennydd Cynulliad.

**LC5: Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr) (Eithriadau) (Cymru) 1999**

3.6 Cytunodd y Pwyllgor i adrodd i'r Pwyllgor nad oes angen iddo roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw un o'r seiliau a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5.

3.7 Amgaeir adroddiad y pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn yn LC5 (Adroddiad).

**LC6: Rheoliadau Ysgolion Newydd (Derbyniadau) (Cymru) 1999**

3.8 Cytunodd y Pwyllgor i adrodd i'r Cynulliad nad oes angen iddo roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw un o'r seiliau a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5.

3.9 Amgaeir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn yn LC6 (Adroddiad).

**LC7: Rheoliadau Addysg (Newid Categori Ysgol a Gynhelir)(Cymru)**

3.10 Cytunodd y Pwyllgor i adrodd i'r Cynulliad nad oes angen iddo roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw un o'r seiliau a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5.

3.11 Amgaeir adroddiad y pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn yn LC7 (Adroddiad).

**LC8: Y Gorchymyn Addysg (Apeliadau Derbyniadau i Ysgolion: Cod Ymarfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwrnod Penodedig) 1999**

3.12 Cytunodd y Pwyllgor i adrodd i'r Cynulliad nad oes angen iddo roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw un o'r seiliau a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5.

3.13 Amgaeir adroddiad y pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn yn LC8 (Adroddiad).

**LC9: Rheoliadau Addysg (Staff Prydau Ysgol) (Cymru) 1999**

3.14 Cytunodd y Pwyllgor i adrodd i'r Cynulliad nad oes angen iddo roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw un o'r seiliau a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5.

3.15 Amgaeir adroddiad y pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn yn LC9 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw faterion eraill**

4.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Deddfau ddydd Mawrth 12 Hydref 1999 am 10.30am.

**Papurau Cysylltiedig**

**LC3(Adroddiad)**

**LC5(Adroddiad)**

**LC6(Adroddiad)**

**LC7(Adroddiad)**

**LC8(Adroddiad)**

**LC9(Adroddiad)**